**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 40

# PYSGODFEYDD, CYMRU

## Gorchymyn Clefydau Pysgod (Ardal Ddynodedig) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *12 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | *13 Mehefin 2006* |

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi’i wneud o dan adran 2 o Ddeddf Clefydau Pysgod 1937 (fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Clefydau Pysgod 1983).

Yn y Gorchymyn hwn mae'r dyfroedd mewndirol a'r tir o fewn yr ardal y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Gorchymyn wedi'u dynodi at ddibenion adran 2 o Ddeddf Clefydau Pysgod 1937.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwahardd symud unrhyw bysgod byw neu unrhyw wyau byw o bysgod i mewn i'r ardal ddynodedig neu allan ohoni heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 40

## PYSGODFEYDD, CYMRU

## Gorchymyn Clefydau Pysgod (Ardal Ddynodedig) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *12 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | *13 Mehefin 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan fod ganddo sail resymol dros amau bod dyfroedd mewndirol penodol yn ddyfroedd heintiedig, neu y gallant droi'n ddyfroedd heintiedig, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(1) a (2) o Ddeddf Clefydau Pysgod 1937(**1**),yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Pysgod (Ardal Ddynodedig) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 13 Mehefin 2006.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:–

ystyr "ardal ddynodedig" ("*designated area*") yw'r ardal a ddynodir gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**Ardaloedd Dynodedig**

**3.** Mae'r dyfroedd mewndirol a'r tir o fewn yr ardal y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi'u dynodi at ddibenion adran 2 o Ddeddf Clefydau Pysgod 1937.

(**1**) 1937 p.33. Disodlwyd adran 2 o Ddeddf 1937 gan Ddeddf Clefydau Pysgod 1983 (p.30), adran 2. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog o dan adran 2 o Ddeddf 1937 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

**Rheolaethau mewn perthynas ag Ardaloedd Dynodedig**

**4.** Ni chaiff neb, heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fynd ag unrhyw un o'r canlynol i mewn i'r ardal ddynodedig neu allan ohoni—

(1) pysgod byw; neu

(2) wyau byw o bysgod.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru y/yr diwrnod/ddiwrnod/niwrnod hwn o 12 Mehefin 2006

Dr Mike Dunn
Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd, Cadwraeth a Rheoli
ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

# YR ATODLEN

Erthygl 3

## (Yr Ardal Ddynodedig)

Fferm Bysgod Brongest, Esgair Newydd, Beulah, Castellnewydd Emlyn, Ceredigion, SA38 9QJ.